# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

## GRANTIAU LLES CYMUNEDOL – NODYN CYFARWYDDYD

Pwrpas y **Gronfa Lles Cymunedol** yw cynorthwyo **prosiectau bach cynaliadwy** a fydd o fudd economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol i **gymunedau** Parc Cenedlaethol Eryri.
Bydd y grantiau a ddyfernir rhwng £100 a £500.

**Prosiectau Cymwys**
Bydd unrhyw brosiectau sy'n gwella'r amgylchedd lleol a lles y gymuned ac sy'n bodloni nodau ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gymwys ar gyfer cyllid.
Mae angen i'r prosiectau allu dangos eu bod yn cyfrannu at o leiaf un o'r canlynol:

a) gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal

Er enghraifft prosiectau sy'n gwella neu'n gwarchod yr amgylchedd lleol trwy dirlunio, plannu coed brodorol, prosiectau bioamrywiaeth eraill, adfer / adnewyddu nodweddion o ddiddordeb lleol neu brosiectau sy'n datblygu sgiliau traddodiadol priodol.

b) hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau Nodweddion Arbennig yr ardal

Er enghraifft, digwyddiadau llesiant cymunedol sy'n canolbwyntio ar gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r amgylchedd lleol, neu hanes a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol a'i gymunedau.

c) meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn Eryri

Er enghraifft, gweithgareddau neu brosiectau gan gynnwys byrddau gwybodaeth, cylchlythyrau cymunedol, rhaglenni mentora a datblygu ieuenctid, gerddi cymunedol, gwyliau celfyddydau a diwylliant lleol, digwyddiadau iechyd a lles cymunedol, rhaglenni cynaliadwyedd megis mentrau diwastraff.

**Pwy all wneud cais?**

Fe all y mathau canlynol o sefydliadau wneud cais am gyllid ar yr amod bod eu prosiectau'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd uchod:

- Grwpiau cymunedol gwirfoddol
- Cynghorau Cymuned / Tref
- Mentrau cymdeithasol ar yr amod eu bod yn gweithredu ar sail nid-er-elw (gan gynnwys undebau credyd)
- Sefydliadau cydweithredol
- Cwmnïau cymdeithasol
- Mentrau sy'n eiddo i'r gymuned
- Cwmnïau cyfyngedig drwy warant
- Cwmnïau budd cymunedol ac ymddiriedolaethau datblygu
- Elusennau
- Sefydliadau trydydd sector .

Rhaid i bob ymgeisydd fod â chyfansoddiad a chyfrif banc o leiaf.
Nid yw unigolion, busnesau na chyrff statudol yn gymwys i wneud cais.

**Telerau ac Amodau**

1. Ni ellir defnyddio'r arian a ddyfernir o dan y grant hwn at y dibenion canlynol:
    - Talu Biliau Cyfleustodau
    - Tâl a Chyflogau
    - Costau Gweithredu Cyffredinol (ee yswiriant, rhent, costau gweinyddol)
2. Rhaid lleoli pob prosiect o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.
3. Lle bo'n briodol, dylai prosiectau geisio defnyddio deunyddiau a chynhyrchion lleol.
4. Rhaid i brosiectau gael y caniatâd / cydsyniad cynllunio perthnasol.
5. Rhaid dangos ymrwymiad i hyfywedd hirdymor y cynllun trwy reolaeth a chynnal a chadw.
6. Bydd grantiau'n cael eu prosesu unwaith y byddwn wedi derbyn tystiolaeth o'r gwariant. Ni roddir unrhyw gyllid ymlaen llaw.
7. Gall Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri adennill grant a dalwyd os na fydd y prosiect yn mynd rhagddo fel y cytunwyd.
8. Rhaid datgan manylion cyllid arall (y gwnaed cais amdano neu a dderbyniwyd) ar gyfer y prosiect.
9. Rhaid hysbysu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am unrhyw newidiadau mawr i'r cynllun ar ôl i'r cais am grant gael ei wneud, a chytuno i hynny.
10. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cadw'r hawl i fonitro gwariant grantiau gan gynnwys archwilio anfonebau gyda derbynebau ynghlwm, ac archwilio deunyddiau a chyfleusterau ar y safle.
11. Gall Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyhoeddi manylion y grantiau a ddyfarnwyd.
12. Rhaid cydnabod grantiau a dderbynnir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri mewn unrhyw gyhoeddusrwydd.

Mae'r ffurflen yn hawdd i'w llenwi – am sgwrs a mwy o wybodaeth cysylltwch â'r:
Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth , Gwynedd, LL48 6LF
**Ffôn:** (01766) 772215
**E-bost** – cronfa.llesiant@eryri.llyw.cymru